# Gosod stent neu wahanydd bio-amsugnadwy corticosteroid distreuliol yn ystod llawdriniaeth sinws endosgopig er mwyn trin llid y sinysau ffroenol cronig

Mawrth 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio, a p'un a yw'n gwella ansawdd bywyd. Ond nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr. Dylai ond cael ei defnyddio os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai egluro'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

## Y cyflwr

Mae llid y sinysau yn golygu bod y ceudyllau sydd wedi'u llenwi ag aer yn yr wyneb (y sinysau) wedi'u heintio ac wedi mynd yn llidus. Gall achosi poen yn yr wyneb a thynerwch, trwyn wedi'i flocio neu drwyn sy'n rhedeg, twymyn a phen tost. Mae llid y sinysau yn aml yn gwella heb ddim neu ychydig iawn o driniaeth, ond gall bara am gyfnod hir (cronig). Caiff llid y sinysau cronig ei drin fel arfer gyda meddyginiaethau fel poenladdwyr, gwrthfiotigau a chorticosteroidau argroenol. Os nad yw'r rhain yn gweithio, efallai y bydd angen llawdriniaeth i wella draeniad o'r sinysau.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio gosod stent neu wahanydd bio-amsugnadwy corticosteroid distreuliol yn ystod llawdriniaeth sinws endosgopig fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Yn y driniaeth hon gosodir stent (tiwb byr) drwy'r trwyn gan ddefnyddio endosgop (tiwb tenau gyda chamera ar y pen) a'i leoli yn system draenio sinws. Mae'r stent yn dal y system draenio ar agor, ac yn rhyddhau meddyginiaeth corticosteroid yn araf i'r sinws. Nod hyn yw lleihau llid. Bydd y stent yn hydoddi dros amser. Caiff y driniaeth ei chynnal fel arfer gydag anesthetig cyffredinol yn ystod llawdriniaeth ar y sinysau.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oes llawer o dystiolaeth dda ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a'i effaith ar ansawdd bywyd. Roedd yr 7 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 290 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- symptomau gwell a barodd am hyd at 6 mis mewn 1 astudiaeth
- llai o lid ac arwyddion eraill o'r cyflwr.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau o osod stent neu wahanydd bio-amsugnadwy corticosteroid distreuliol yn ystod llawdriniaeth sinws endosgopig yn cynnwys:

- crofennu a chreithio yn y trwyn mewn un claf, haint yn y trwyn mewn claf arall, a haint ar yr amrant a'r croen o amgylch y llygad mewn trydydd claf, a wnaeth wella i gyd gyda thriniaeth
- cur pen/pen tost, pwysedd a llid mewn un claf, a wnaeth wella pan gafodd y stent ei dynnu.

Dywedwyd wrth NICE hefyd am risg arall bosibl: y stent yn disgyn allan.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw.

Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1846-1